# JONES, CAIN (fl.1775-95), almanaciwr

**Enw:** Cain Jones
**Plentyn:** John Cain Jones
**Rhiant:** John Edwards
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** almanaciwr
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd; Gwyddoniaeth a Mathemateg; Y Gofod a Hedfan
**Awdur:** Evan David Jones

Mab John Edwards ('Sion y Potiau'). Ni wyddys ddyddiad ei eni, ond bedyddiwyd ei frawd Abel, a fu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr ym Merthyr Tydfil, yn Llansantffraid Glyn Ceiriog, 21 Rhagfyr 1740, a theg yw casglu fod Cain yn h n nag Abel. Ar farwolaeth Gwilym Howel, yn 1775, ymgymerodd â golygu'r almanac *Tymmhorol, ac wybrennol Newyddion*. Bu'n gyfrifol am 20 rhifyn a gyhoeddwyd gan Eddowes yn Amwythig, ac eithrio'r olaf yn unig, sef rhifyn 1795, a gyhoeddwyd gan J. Marsh yng Ngwrecsam. Nid oes gofnod am almanac diweddarach ganddo. Yr oedd yn ymhel rhyw gymaint â barddoniaeth, a cheir marwnad o'i waith yn almanac 1783.

Mab iddo oedd JOHN CAIN JONES (bu farw 1826?), a ysgrifennai dan yr enw ' Siôn Ceiriog.' Ceir llythyrau gan John Cain Jones yn N.L.W. MS. 1891, penillion ar donau ' Y Mynach Du ' a ' Gwel yr Adeilad ' yn N.L.W. MS. 1817, salmdonau yn N.L.W. MS. 1932, ' Cerdd hanes rhyw gidwm gwaedlyd o'r Cymdu ' yn N.L.W. MS. 6729, a ' Cerdd annerch Mr. Edward Bennion, physygwr,' yn N.L.W. MS. 12868. Dywedir iddo farw yn 1826, a bod ganddo ferch, Leah Evans, yn brydyddes awenyddol yng Nglyn Ceiriog.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 503

*Y Tyst Apostolaidd*, 1850, 136-7

almanaciau Cain Jones


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18526697


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu